

Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dyddiad: 21 Mehefin 2000

Teitl: Adroddiad Misol Ysgrifennydd y Cynulliad

MATERION STRATEGOL

CYNNWYS

Rhif y Paragraff

GWELLA IECHYD A THRECHU ANGHYDRADDOLDEBAU

1-2

Rhestrau/Amserau Aros

Grp Datblygu Strategaeth Amserau Aros

3

Tasglu Pwysau Argyfwng

4

Rhaglenni Gwella Iechyd

5-9

Grp Cyflawni a Gorffen y Cyngor Partneriaeth ar Iechyd a Lles

10

Ymgynghori ar Strategaeth Iechyd Rhyw

11-14

Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau

15

Y Strategaeth Clefydau Trosglwyddadwy

16

Mis Canserau Dynion

17-18

Comisiwn Gwella Iechyd – Ymchwiliad i Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin	19-21
Strategaeth yr NHS ar Gyfranogaeth y Cyhoedd	22-26
Y Cyd-bwyllgor Gweinidogion Iechyd	27-28
Adroddiad ar Ddatblygu Gwasanaethau Aciwt a'r Diweddaraf am Strategaeth NHS Cymru	29-32
GOFAL SYLFAENOL	
Ymddygiad Iechyd mewn Plant o Oed Ysgol	33
Asesiadau o Effaith ar Iechyd	34
Y Fenter Gofal Llygaid	35-36
MATERION POLISI A GWEITHREDOL BRYD	
Adroddiad y Comisiwn Archwilio	37-46
Cynhalwyr	47-48
Mesur Plant (Ymadael â Gofal)	49
Tribiwnlys Gogledd Cymru	50
Ymateb i adroddiad Tribiwnlys Camdrin Plant Gogledd Cymru	
Codi am Ofal Di-Breswyl	51
Y Comisiwn Brenhinol a Phapur Gwyn y Gwasanaethau Cymdeithasol	52
Y Diweddaraf am drosglwyddo gwasanaethau o Ganolfan Ymadfer Talygarn	53-56
Materion i'r Sector Gwirfoddol	57-59
Menter Cyllid Preifat Baglan	60

Rhestrau/Amserau Aros

1. Cafodd rhestrau aros Ebrill 2000 eu cyhoeddi ar 24 Mai. Rhwng 31 Mawrth a 30 Ebrill, bu 760 yn fwy o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol/achosion dydd. Mae hyn wrth reswm yn destun siom ond rwy'n ffyddiog y bydd y momentwm i leihau'r rhestrau ac amserau aros yng Nghymru yn ailgydio unwaith y caiff y £40 miliwn y cytunwyd arno yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 17 Mai ei ddyrannu ac yn sgil y targedau llym ac anodd rwyf wedi'u pennu. Erbyn diwedd mis Mawrth 2001, bydd yn rhaid i awdurdodau iechyd ostwng nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth fel cleifion mewnol ac achosion dydd yng Nghymru i ryw 65,500 – gostyngiad o 15,000. Byddaf hefyd yn disgwyl i awdurdodau iechyd:

- nad oes yr un claf yn aros am fwy na chwe mis am driniaeth cataract;
- lleihau o 50 y cant nifer y cleifion allanol sy'n aros am fwy na chwe mis am eu hapwyntiad cyntaf;
- sicrhau nad oes cleifion mewnol a chleifion achosion dydd yn aros mwy na 12 mis am eu triniaeth yn y rhan fwyaf o achosion erbyn Mehefin 2001 (ac eithrio cleifion orthopedig a llawdriniaethau plastig oherwydd problemau capasiti – bydd awdurdodau iechyd yn datblygu rhaglenni tymor hwy ar gyfer y cleifion hyn); a
- cytuno ar raglen dreigl i reoli'r galw'n well a chreu systemau cynaliadwy i gadw lle i gleifion.

2. Rwyf hefyd wedi creu'r rhaglen "Datblygiadau Gofal Newydd" dan arweiniad Susan Barnett, Uwch-reolwr yn yr NHS. Bydd y rhaglen hon yn gweithio ar draws yr NHS yng Nghymru gan weithredu'n gatalydd i foderneiddio'r ffordd y mae gofal yn cael ei roi mewn ysbytai ac i hyrwyddo datblygiadau newydd ac arferion gorau ar gyfer blaenoriaethu a thrin cleifion. Bydd yn helpu ymddiriedolaethau ysbytai i sicrhau gostyngiadau cynaliadwy yn eu hamserau aros dros y tymor hwy a gwella'r gofal iechyd a roddir i bobl Cymru. Mae Mrs Burnett yn fwy na pharod i roi cyflwyniad ar ei gwaith i'r Pwyllgor ac mae hyn ar y gweill.

Grp Datblygu Strategaeth Amserau Aros

3. Bydd y Grp Datblygu Strategaeth Amserau Aros yn cwrdd am y seithfed tro ddydd Mercher 21 Mehefin. Bydd yn trafod y dewis o ran rheoli gwasanaethau i gleifion allanol a derbyniadau brys a ffyrdd gwahanol o reoli rhestrau aros yn ôl amser. Hefyd, bydd y grp yn derbyn adroddiad ar weithdy nyrsus a gynhaliwyd ddydd Mercher 24 Mai i ystyried rôl nyrsus wrth reoli rhestrau aros. Bydd adroddiad y Grp yn barod ym mis Gorffennaf i'r Pwyllgor ei ystyried ar ôl toriad yr haf.

Tasglu Pwysau Argyfwng

4. Cynhaliwyd trydydd cyfarfod y Tasglu ar 15 Mai. Cafwyd adroddiad gan gadeirydd pob Is-grp ar eu gwaith a thrafodwyd y casgliadau a godwyd. Mae'n dda gennyf ddweud bod pob is-grp

wedi dechrau clustnodi themâu allweddol ac wrthi'n paratoi cyfraniad ar gyfer cyfarfod nesaf y Tasglu ar 22 Mehefin. Caiff fersiwn derfynol yr adroddiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 9 Gorffennaf. Yn ogystal, fy ngobaith yw cyhoeddi canllawiau cyfamserol ar gynllunio at Aef 2001 cyn gynted ag y gallaf er mwyn i'r NHS, awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol ac eraill allu cymryd camau buan i sicrhau Gaeaf diovid i gleifion.

Rhaglenni Gwella Iechyd

5. Cefndir: Daeth Rhaglenni Gwella Iechyd 2000/05 i law swyddogion yn nechrau mis Mai, mis yn hwyr o ystyried amseriad llythyr y dyraniad ariannol i awdurdodau iechyd. Roedd mwyafrif yr Awdurdodau Iechyd wedi cyflwyno fersiynau drafft cyn hynny er mwyn cael ymatebion cychwynnol.

6. Materion trafod: Bu'r pwyslais hyd yma ar ddatblygu'r RhGI yn fecanwaith cynllunio strategol ac ar sicrhau bod prosesau cadarn yn eu lle i osod sylfeini cryfion ar gyfer cynlluniau a rhaglenni'r dyfodol. Ceisir adborth oddi wrth rychwant eang o fuddiannau – y Cynulliad, unigolion a grwpiau allanol sydd â diddordeb ac aseswyr annibynnol megis y Gwasanaeth Archwilio Dosbarth yn ogystal â thimau Awdurdodau Iechyd a'u partneriaid. Dechreuwyd y broses ar ôl derbyn y Rhaglenni Gwella Iechyd yn mis Mai ac ni ddaw i ben tan ddechrau Gorffennaf. Dadansoddir yr ymatebion gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- gweithio ar y cyd
- y graddau yr enynnir diddordeb y cyhoedd
- pennu blaenoriaethau
- asesu anghenion
- ystyriaethau amgylcheddol
- cynigion i wella iechyd/gwasanaethau
- yr hyn a ddarperir a chynlluniau gweithredu
- adnoddau

7. Bydd gofyn ystyried y materion trafod canlynol wrth ddatblygu Rhaglenni Gwella Iechyd:

- datblygu cysylltiadau gwell â gweddill y Deyrnas Unedig er mwyn cyfnewid syniadau a phrofiadau a sicrhau bod yr arferion gorau yn mynd ar led
- yr angen am weithdai rheolaidd i ddatblygu RhGI ar gyfer Cymru gyfan er mwyn helpu'r Cynulliad, Awdurdodau Iechyd a'u partneriaid i ddatblygu eu gallu i gynllunio'n strategol a chynnal momentwm y broses RhGI
- pwysigrwydd crisialu prosesau cynllunio o fewn y cyd-destun rhyng-asiantaethol fel bod yr holl bartneriaid a'u gwaith yn dod yn dwt o dan ymbarel cynllun strategol y Cynulliad

- datblygu trefniadau i reoli'r Rhaglenni Gwella Iechyd yn ôl perfformiad yng nghyd-destun y Fframwaith Rheoli Perfformiad
- pwysigrwydd sicrhau bod polisiau a strategaethau iechyd yn cael eu datblygu mewn ffordd sy'n cydnabod rôl y RhGI fel mecanwaith bwysig ar gyfer eu gweithredu. Yn y dyfodol, rhoddir mwy o bwyslais ar gynnwys y Rhaglenni, o ran eu hamcanion a mesur canlyniadau yn ôl yr amcanion hynny
- pwysigrwydd sicrhau bod y RhGI yn clustnodi anghydraddoldebau ac yn eu trechu.

8. Y Camau Nesaf: Y cam nesaf yw cwblhau'r broses werthuso sydd wrthi'n cael ei chynnal a defnyddio'i chanlyniadau i fwydo:

- y cyfarfodydd anffurfiol gyda thimau'r Awdurdodau Iechyd ac arweinwyr eu RhGI
- y trafodaethau ffurfiol nes ymlaen yn yr haf fel rhan o Adolygiadau Blynyddol yr Awdurdodau Iechyd
- Gweithdy Datblygu Rhaglenni Gwella Iechyd ym mis Medi

9. Caiff adroddiad cynnydd ei gyflwyno ger bron y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (iddynt ei nodi) ddechrau mis Gorffennaf a fydd yn grynodedb o'r Rhaglenni Gwella Iechyd ac a fydd yn bwrw golwg ar y broses hyd yma. Gofynnir i'r Pwyllgor drafod datblygiad Rhaglenni Gwella Iechyd at y dyfodol ddechrau'r hydref ar ôl cwblhau'r broses werthuso ac ar ôl trafod gyda'r Awdurdodau Iechyd.

Grp Cyflawni a Gorffen y Cyngor Partneriaeth ar Iechyd a Lles

10. Cynhelir ail gyfarfod y Grp ar 15 Mehefin i ystyried eu gwaith hyd yma. Mae arolygon a chyfres o weithdai'n cael eu trefnu ledled Cymru i gasglu gwybodaeth.

Ymgynghori ar y Strategaeth Iechyd Rhyw

11. Daeth y Cyfnod Ymgynghori ar y Strategaeth Iechyd Rhyw i ben ar 24 Mawrth 2000. Mae'n dda gennyf ddweud inni dderbyn dros 70 o ymatebion ysgrifenedig oddi wrth amrywiaeth o gyrff gan gynnwys Awdurdodau Iechyd, Ymddiriedolaethau NHS, meddygon teulu, Cyngorau Iechyd y Gymuned, ESTYN, grwpiau proffesiynol (gan gynnwys y Coleg Brenhinol y Nyrsus, Coleg Brenhinol y Fferyllwyr, Association of Genitourinary Medicine, bydwagedd, nyrsus ysgol, arbenigwyr hybu iechyd, Undeb Cenedlaethol yr Athrawon), awdurdodau lleol a mudiadau gwirfoddol sy'n gweithio ym meysydd iechyd ac ieuenctid.

12. Roedd pawb yn diwahân yn croesawu strategaeth iechyd rhyw i Gymru. Roedd llawer yn gytun mai strategaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ymchwil ac arferion gorau fyddai'r ffordd orau ymlaen yn y maes sensitif hwn. Teimlwyd y byddai'r strategaeth yn rhoi cyfle i ganolbwyntio, ar

lefel leol a chenedlaethol, ar lawer o'r pynciau llosg y mae galw am fynd i'r afael â nhw, gan gynnwys arddegolion sy'n beichiogi, darparu atal cenhedlu argyfwng a'r cynnydd yn yr achosion o glefydau a drosglwyddir yn rhywiol megis clamydia. Gwelwyd y strategaeth fel ffordd o sicrhau bod iechyd rhyw yn cael lle amlwg ar yr agenda genedlaethol ac o gynnig ffordd i bawb sy'n gweithio i wella iechyd rhyw yng Nghymru i weithio gyda'i gilydd yn well.

13. Codwyd y pwyntiau canlynol gan nifer o'r atebwyr:

- Gofid cyffredinol ynghylch **adnoddau** a goblygiadau ariannol y Strategaeth.
- Yr angen am **hyfforddiant** ar draws amrywiaeth o sectorau (athrawon; nyrsus ysgol; gweithwyr ieuenctid; proffesiynolion iechyd; staff derbynfydd gwasanaethau).
- Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i'r syniad o **integreiddio gwasanaethau**.
- Yr angen am **sylw manylach** ar rai agweddau ar y strategaeth.
- Roedd grwpiau a oedd yn gweithio ym maes HIV yn teimlo nad oedd y strategaeth yn ymdrin â llawer o bynciau'n ymwneud â heintiad HIV.

14. **Y Camau Nesaf:** Er mwyn ystyried y materion a godwyd gan ymatebwyr, mae'r camau canlynol yn cael eu cymryd:

- Trafodaethau ag Awdurdodau Iechyd i sicrhau bod mesurau i gryfhau a datblygu gwasanaethau iechyd rhyw yn cael eu cynnwys yn y Rhaglenni Gwella Iechyd.
- Wrth gyhoeddi'r Cynllun Gweithredu, sef y prif gyfrwng ar gyfer rhoi'r strategaeth ar waith, gellid cynnwys gwybodaeth am ffynonellau cyllid ar gyfer gwaith newydd gyda phobl ifanc a grwpiau agored i niwed (ee Plant yn Gyntaf, Cychwyn Cadarn).
- Mae'r rhestr o'r pynciau y mae eisiau rhoi mwy o sylw iddynt wedi'i hadolygu. Ychwanegir cyfeiriadau pellach yn ôl y gofyn yn y Cynllun Gweithredu (ee yn yr adran ar strategaethau lleol a manylion gwasanaethau).
- Yn dilyn cyfarfod diweddar gyda mudiadau gwirfoddol HIV, gofynnais i'r Is-adran Iechyd y Cyhoedd gynnal arolwg o'r angen am Strategaeth HIV benodol ar gyfer Cymru.

Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau

15. Cafodd y Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau newydd ei lansio'n llwyddiannus yng Nghynhadledd Addysg ac Atal Cyffuriau Blwyddyn o Addewid HTV yng Nghroes Cwrlwys ar 25

Mai.

Y Strategaeth Clefydau Trosglwyddadwy

16. Ar 31 Mai, bwriedir cychwyn y cyfnod 12 wythnos o ymgynghori ar y Strategaeth Clefydau Trosglwyddadwy a ddaw i ben ddiwedd mis Awst. Yn dilyn hynny, caiff y sylwadau a geir eu crynhoi mewn Adroddiad i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Medi.

Mis Canserau Dynion

17. Ar 8 Mehefin, cynhaliais gynhadledd i'r wasg ar ran yr Ymgyrch Ymchwil i Ganser yn swyddfeydd y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd, i lansio Mis Canserau Dynion.

18. Er bod canserau menywod, megis canser y fron a chanser ceg y groth, yn cael llawer o sylw a bod y cyhoedd yn ymwybodol iawn ohonynt, cymharol brin yw'r ymwybyddiaeth o ganserau dynion megis canser y prostrad. Mae yna lawer o ddynion nad ydynt yn gwybod beth yw'r symptomau a byddai llawer ohonynt yn amharod i fynd at feddyg teulu i drafod mater mor sensitif. Mae Mis Canserau Dynion yr Ymgyrch yn ceisio datrys hyn gyda chymorth ei noddwr, Syr Harry Secombe, sydd ei hun wedi dioddef o ganser y prostrad. O gofio'i bwysigrwydd, roeddwn yn fwy na pharod i gynnig fy nghefnogaeth innau, er mwyn sicrhau bod cymaint o ddynion â phosib yn dod i wybod am arwyddion canser y prostrad a chanser y ceilliau, pryd y dylent fynd at eu doctor a pheidio ag ofni gwneud hynny.

Comisiwn Gwella Iechyd – Ymchwiliad i Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin

19. Yn dilyn digwyddiadau diweddar, gofynnwyd i'r Comisiwn Gwella Iechyd (CGI) gynnal ymchwiliad i'r Ymddiriedolaeth. Mae'r CGI wedi cynnal trafodaethau cychwynol a chasglu dystiolaeth i weld pa feysydd y dylai'r ymchwiliad roi sylw iddynt. Mae'r cam hwn bellach wedi'i gwblhau a chytunwyd ar y cylch gwaith a ganlyn:

20. Bydd y Comisiwn yn ymchwilio i'r modd y mae Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin yn rheoli ac yn darparu gofal ac ansawdd y gofal hwnnw, gan roi sylw arbennig i:

i) Ddadansoddi adroddiadau ymchwiliadau allanol Coleg Brenhinol y Llawfeddygon a'r arolwg o ddigwyddiadau critigol a gynhaliwyd gan yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â:

- materion na wnaeth yr adroddiadau eu hystyried;
- hynt y cynlluniau gweithredu a luniwyd yn sgil yr adroddiadau

ii) Y trefniadau a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth i fynd i'r afael â digwyddiadau anffodus

iii) Digonolrwydd trefniadau llywodraethu clinigol yr Ymddiriedolaeth, fel corff cyfan ac o fewn meysydd clinigol penodol

iv) Y camau y gallai fod angen eu cymryd i:

- o wella'r modd y mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli gofal iechyd a'i ansawdd;
- o gwella'r trefniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau, gofalu ac asiantaethau perthnasol eraill gyfrannu at gyllunio gwasanaethau;
- o cefnogi ymdrechion yr Ymddiriedolaeth i wella gwasanaethau.

21. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi adroddiadau ar ei ddarganfyddiadau a'i argymhellion cyn diwedd yr haf.

Strategaeth yr NHS ar Gyfranogaeth y Cyhoedd

22. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wrthi'n datblygu strategaeth ar gyfranogaeth y cyhoedd ar gyfer yr NHS a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol, i weld sut orau y gellid sicrhau bod y cyhoedd/defnyddwyr a chynhalwyr yn cyfrannu at gynllunio a darparu gwasanaethau. Bydd hyn yn cyfrannu at flaenoriaeth gyffredinol y Cynulliad o wella ansawdd bywyd trwy drechu anghydraddoldebau o ran cyfleoedd i gael gofal iechyd a chymdeithasol, ac annog trafodaeth ddeallus ar flaenoriaethau a chyfeiriad y gwasanaethau iechyd a'u tebyg yn y dyfodol.

23. Mae'r gwaith hwn wedi cael cryn gyhoeddusrwydd ledled Cymru ac mae'n cael ei sbarduno gan grŵp llywio y mae cynrychiolwyr o'r Cynulliad, yr NHS a Chymdeithas Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn aelodau ohono. Bydd y prif chwaraewyr o fewn yr NHS, gan gynnwys cynghorau iechyd y gymuned, y sector gwirfoddol a chynrychiolwyr y cyhoedd, yn cael cymryd rhan lawn yn y gweithdai a'r astudiaethau achos a gynhelir gydol cyfnod y strategaeth yn ogystal ag yn y gynhadledd yn yr hydref. Mae'r Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus wedi'i dewis i ddatblygu'r strategaeth trwy:

- gyfrifiad/asesiad o drefniadau i ddefnyddwyr, cynhalwyr a'r cyhoedd gael cymryd rhan yng Nghymru a mannau eraill. Rhan bwysig o'r gwaith hwn fydd asesu effeithiolrwydd y trefniadau sy'n bod o safbwynt y defnyddwyr a'r cynhalwyr;
- dwy gynhadledd yn yr hydref i drafod cyfranogaeth defnyddwyr/cynhalwyr/y cyhoedd er mwyn cael golwg ar y trefniadau sy'n bod a sbarduno trafodaeth ar y ffordd orau o gael y cyhoedd i gymryd rhan a chlustnodi mesurau ymarferol i gael y cyhoedd i gyfranogi'n fwy effeithiol. Caiff cynadleddau eu cynnal yn y gogledd a'r de a byddaf yn traddodi areithiau yn y ddwy.

24. **Cynnydd hyd yma:** mae'r gyfrifiad eisoes wedi'i ddechrau ac mae OPM yn dweud eu bod

wedi cael ymateb da i'w cais am enghreifftiau o drefniadau cyfranogi. Bydd y cyfrifiad yn cynnwys:

- OPM yn holi awdurdodau iechyd ac eraill yn yr NHS am y trefniadau a'r strategaethau cyfranogi sy'n bod; a
- chwilio am enghreifftiau o fannau eraill; bydd hyn yn cynnwys sampl o 10 o astudiaethau achos enghreifftiol.

25. Bydd y cyfrifiad wedi dod i ben erbyn canol Gorffennaf a bydd y cyfweiliadau ffôn a'r adborth wedi'u cwblhau ym mis Medi. Caiff y cynadleddau eu trefnu yr un pryd â'r cyfrifiad o drefniadau cyfranogi.

26. Mae'r NHS yn awyddus i helpu i ddatblygu'r strategaeth a fydd yn cyrraedd ei phenllanw gyda chyhoeddi adroddiad tua diwedd y flwyddyn a fydd yn seiliedig ar yr adborth yn y cynadleddau. Bydd yn rhestru'r bylchau a'r diffygion o ran cael y cyhoedd i gymryd rhan; bydd yn rhoi sylw i arfer dda ac yn cynnig argymhellion ar gyfer datblygu strategaeth ymarferol ar gyfer y dyfodol.

Y Cyd-Bwyllgor Gweinidogion Iechyd

27. Bum yn ail gyfarfod y Cyd-bwyllgor Gweinidogion Iechyd ddydd Llun, 5 Mehefin yn Llundain. Unwaith eto, cafwyd cyfarfod defnyddiol o rannu syniadau ac arferion gorau a thrafodwyd:

- Pwysau'r Gaeaf – dywedodd pob gweinyddiaeth bod eu cynlluniau ar gyfer lleddfu pwysau'r gaeaf yn mynd rhagddynt yn dda. Cytunodd y Pwyllgor y dylai Gweinidogion Iechyd gwrdd unwaith eto ym mis Hydref i drafod y paratodau;
- Cyflwyno Newid yn yr NHS Newydd – yr bod pwyslais pob gwlad yn wahanol, yr un oedd y prif broblemau a meysydd blaenoriaeth. Gwelwyd bod angen ar bob gweinyddiaeth i gyfnewid gwybodaeth yn fuan yn y broses gynllunio er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd i gyfnewid profiadau ac arferion gorau;
- Gweithio Integredig – mae'r profiad o integreiddio gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon wedi esgor ar fanteision cynllunio ac ar fuddiannau i grwpiau megis yr henoed. Gallai'r gweinyddiaethau eraill elwa ar y profiad hwn ac ar gynlluniau peilot mewn rhannau eraill o Brydain;
- Cynlluniau a Chyllidebau Iechyd – caiff Cynllun Cenedlaethol Lloegr ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf a bydd yr holl weinyddiaethau datganoledig yn gwneud eu cyhoeddiadau hwy yr un pryd.

28. Cynhaliwyd cyfarfod nesaf Cyd-bwyllgor y Gweinodigion ar 16 Mehefin lle trafodwyd:

- Moderneiddio trwy Bartneriaeth – cael cleifion i gyfrannu at ddiwygio iechyd;
- Cynllun Cenedlaethol Lloegr – y diweddaraf am ei hynt;
- Atal – archwiliad trylwyr o achosion afiechyd;
- Telefeddygaeth – rhannu profiad Cymru yn y maes arloesol a newydd hwn.

Adroddiad ar Ddatblygu Gwasanaethau Aciwt a'r Diweddaraf am Strategaeth NHS Cymru

29. Mae Bwrdd y Polisi Iechyd a Lles wedi trafod yr adroddiad hwn a gwnaed cyflwyniad manwl i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 25 Mai. Nid yw prif gasgliadau'r adroddiad wedi newid yn sgil y trafodaethau hyn. Bydd ail adroddiad drafft yn barod yr wythnos hon a chaiff ei ddsbarthu ymhlith aelodau Grp Datblygu Gwasanaethau Aciwt a Bwrdd Prosiect y Strategaeth am eu sylwadau terfynol. Caiff yr adroddiad wedyn ei ddsbarthu ymhlith aelodau'r Cynulliad/Grp y Prif Weithredwyr (NACE) a gofynnir am eu sylwadau. Y bwriad yw cyhoeddi fersiwn derfynol ddiwedd mis Mehefin a dosbarthu papur ymgynghori terfynol cyn gynted â phosib wedi hynny.

30. Bydd yr amserlen uchod yn caniatáu amser i NACE drafod yr adroddiad terfynol yn fanwl ym mis Gorffennaf cyn dechrau ar y broses ymgynghori ffurfiol.

31. Mae pedwar o ddigwyddiadau 'Creu'r Hinsawdd' yn cael eu cynnal y mis yma trwy Gymru fel rhan o Brosiect Strategaeth Gorfforaethol NHS Cymru. Maen nhw'n rhan bwysig o'r broses o gael y gymuned i gyfrannu at ddatblygu Strategaeth Gorfforaethol. Erbyn cynnal y pedwar digwyddiad, bydd tri neu bedwar cant o bobl wedi bod ynghlwm wrth y broses. Yn eu plith – proffesiynolion, rheolwyr a pholisïwyr yr NHS, aelodau'r cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig, arweinwyr a ffurfwyr barn o'r sector gwirfoddol, byd busnes a'r cyfryngau. Bydd cynrychiolwyr yn y digwyddiadau'n gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu cyfeiriad cliriach a mwy realistig i'r NHS yng Nghymru. Bydd canlyniadau'r gweithdai hyn yn bwydo trafodaethau Bwrdd Prosiect y Strategaeth Gorfforaethol gan ddylanwadu'n uniongyrchol ar Strategaeth NHS Cymru y gobeithir ei chyhoeddi ddiwedd y flwyddyn.

32. Bydd cyfarfod nesaf Bwrdd Prosiect y Strategaeth Gorfforaethol yn cael ei gynnal ganol Gorffennaf. Trafodir yn fanylach sut i fynd ati i gynhyrchu'r adroddiad terfynol yn y cyfarfod hwnnw.

GOFAL SYLFAENOL

Ymddygiad Iechyd mewn Plant o Oed Ysgol

33. Cynhaliwyd cyfarfod gwyddonol gwanwyn 2000 y grp astudio Ymddygiad Iechyd mewn Plant o Oed Ysgol (HBSC) yng Nghaerdydd ar 7-10 Mai, gan ddod ag ymchwilyr o ryw 30 o

wledydd o Ewrop a Gogledd America sy'n gweithio ar astudiaeth HSBC 2001/02. Mae Cymru wedi cymryd rhan yn yr astudiaeth hon o dan nawdd Cyfundrefn Iechyd y Byd ers 1986 gyda'r arolwg yn cael ei weinyddu bob dwy flynedd. Defnyddir y canlyniadau mewn sawl ffordd, gan gynnwys gwella'n dealltwriaeth o iechyd pobl ifanc; creu system wybodaeth genedlaethol ar gyfer monitro iechyd ac ymddygiad iechyd; darparu darlun cyflawn o sefyllfa gymharol pobl ifanc yng Nghymru a gweddill Ewrop a Gogledd America o ran prif ymddygiadau iechyd; a datblygu polisiâu, rhaglenni ac arferion sy'n hybu iechyd pobl ifanc.

Asesiadau o Effaith ar Iechyd

34. Mae dogfen ganllaw'r Cynulliad ar ddefnyddio Asesiadau o Effaith ar Iechyd yng Nghymru wedi ennyn cryn ddiddordeb ledled Ewrop ac mae'n amlinellu cynlluniau ar gyfer rhaglen ddatblygu yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys cyfres o brosiectau peilot. Mae dau brosiect peilot wedi'u cwblhau ac mae adroddiadau ar fin cael eu cyhoeddi. Caiff yr adroddiadau eu dosbarthu'n helaeth fel sail ar gyfer dysgu o brofiad.

Y Fenter Gofal Llygaid

35. Yn dilyn cymeradwyo Adroddiad y Pwyllgor, mae grp ymgynghorol o arbenigwyr wedi'i ffurfio i weld sut orau i roi'r fenter ar waith. Bydd y grp yn cynnal ei gyfarfod cyntaf ar 13 Mehefin gan gyflwyno ei adroddiad imi cyn diwedd Gorffennaf.

36. Yn y cyfamser, mae'r arian a glustnodwyd i leihau nifer y cleifion sy'n aros am lawfeddygaeth gataract wedi'i ddyrannu i'r Awdurdodau Iechyd gyda'r bwriad bod awdurdodau'r De yn defnyddio Canolfan Trin Llygaid Bro Morgannwg a'r awdurdodau eraill yn defnyddio cyfleusterau lleol.

MATERION POLISI A GWEITHREDOL BRYD

Adroddiad y Comisiwn Archwilio

37. **Gwaith ar y gweill:** Gofynnir i Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r NHS i adolygu eu gwasanaethau cyfarpar yn y man, yn unol â darganfyddiadau ac argymhellion adroddiad y Comisiwn Archwilio, "Fully Equipped. The provision of equipment to older or disabled people by the NHS and social services in England and Wales".

38. **Gwasanaethau Awdioleg:** Cyfarfu swyddogion â Chyfarwyddwr a swyddogion eraill y Royal National Institute for Deaf People, Cymru ar 6 Mehefin 2000 i drafod gwella safonau gwasanaethau awdioleg.

39. Rwy'n gwneud trefniadau gyda Chyflenwadau Iechyd Cymru bod yr NHS yng Nghymru yn cael defnyddio'r cyflenwad o gymhorthion clyw digidol am bris sy'n cymharu â'r hwnnw a delir

gan ganolfannau awdioleg yn Lloegr. Rwy'n rhagweld y bydd y contract yn barod erbyn diwedd y flwyddyn.

40. Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar: Mae Adroddiad y Comisiwn Archwilio yn edrych ar wasanaethau cyfarpar gan roi sylw i bum maes arbennig: dim ond dau ohonynt sy'n perthyn i'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial – cadeiriau olwyn a seddau, a phrosthedeg.

41. Fe gydiodd Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (SHSCW) yn awenau'r gwaith o gomisiynu'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar (ALAS) ym mis Ebrill eleni. Cyn hynny, roeddynt wedi cynhyrchu adroddiad cychwynnol a danlinellodd nifer o bryderon am y gwasanaeth gan glustnodi nifer o gamau y byddai ar ALAS neu Ymddiriedolaethau'r NHS angen eu cymryd.

42. Mae SHSCW wedi ystyried argymhellion adroddiad y Comisiwn Archwilio. Byddant yn cyflwyno adroddiad ar ALAS ger bron bwrdd SHSCW ar 15 Mehefin a fydd yn disgrifio'r gwaith y bydd SHSCW yn ei wneud yng nghyd-destun adroddiad y Comisiwn Archwilio. Eu gobaith yw cynhyrchu adroddiad terfynol ym mis Medi eleni.

43. Gweler isod nifer o benawdau y mae gwaith helaeth eisoes wedi'i wneud arnynt:

44. Y fframwaith ariannol: mae gwariant llinell sylfaen pob elfen o'r ALAS bron iawn ar ben. Law yn llaw â hynny, cyflwynir system fonitro newydd (mewn grym o Ebrill 2000 ymlaen) er mwyn i gomisiynwyr allu cymharu sut mae gwasanaethau'n cael eu defnyddio ym mhob un o'r pum Awdurdod Iechyd. Bydd comisiynwyr wedyn yn gallu edrych ar y gwahaniaethau yn y gwasanaethau a pha mor rwydd yw hi i gleifion gael at wasanaethau. Wedyn, cydraddoldeb cyfle fydd yn cael y prif sylw.

45. Meini Prawf a Safonau: ar gyfer y tair Canolfan ALAS yng Nghymru. Cynhelir y trydydd cyfarfod ar 6 Mehefin. Mae SHSCW wrthi'n trafod hefyd gyda chyrrff fel Anabledd Cymru a'r Comisiwn dros Hawliau Pobl Anabl i geisio'u barn ynghylch sut i fynd â'r trafodaethau hyn at gynulleidfa ehangach o ddefnyddwyr a chynhalwyr er mwyn iddynt allu gweithio gyda'r Gwasanaeth i gytuno ar feini prawf a safonau.

46. Ehangu'r Dewis: bydd y rhan yma o'r gwaith yn canolbwyntio ar ehangu'r dewis i ddefnyddwyr. Mae SHSCW yn gweithio gyda chynrychiolwyr y "Gwasanaeth Seddau" i weld sut orau i integreiddio'r gwasanaeth hwnnw o fewn y gwasanaeth cadeiriau olwyn 'prif-ffrwd'.

Mae trefniadau cwyno yn cael eu hadolygu hefyd er mwyn symleiddio a phrysu'r broses a thrwy hynny, cynnig ymatebion gwell a chyflymach i gleifion.

Mae SHSCW yn gweithio gydag ALAS hefyd i ddarparu technoleg newydd i wella'r broses atgyfeirio ac archebu, derbyn a thracio cyfarpar.

Cynhalwyr

47. Daeth yr ymgynghori ag WLGA a chymdeithasau cynhalwyr ar yr adroddiad grant arbennig i ben ar 19 Mai ac mae'r ymatebion wrthi'n cael eu hystyried. Caiff trafodaeth yn y sesiwn lawn ei chynnal ar 14 Mehefin yn ystod Wythnos Genedlaethol y Cynhalwyr. Mae Chwarae Teg, Carers National, Crossroads ac Age Concern wedi'u gwahodd i godi stondinau yn neuadd y Cynulliad ar 14 Mehefin.

48. Mae aelodau'r Pwyllgor wedi cynnig eu sylwadau terfynol ar Gynllun Gweithredu Strategaeth Cynhalwyr Cymru. Caiff ei lansio'n ffurfiol ddiwedd Mehefin/dechrau Gorffennaf mewn derbyniad yn adeilad y Cynulliad y bydd aelodau'r Pwyllgor, cynhalwyr a'u mudiadau yn cael eu gwahodd iddo.

Mesur Plant (Ymadael â Gofal):

49. Pasiwyd y Mesur gan D'r Arglwyddi a'i roi ger bron T'r Cyffredin ar 23 Mai. Nid yw'n hysbys eto pryd fydd yr ail ddarlleniad.

Tribiwnlys Gogledd Cymru

50. **Ymateb i adroddiad Tribiwnlys Camdrin Plant Gogledd Cymru:** Cafwyd adborth adeiladol i'r Gynhadledd *Ar Goll mewn Gofal* ac mae'r Brifysgol wrthi'n paratoi adroddiad llawn a fydd ar gael i aelodau'r Pwyllgor. Cafodd ymateb drafft y Cynulliad i Adroddiad y Tribiwnlys ei ystyried gan y Pwyllgor ar 7 Mehefin. Bydd ymateb y Cynulliad i *Ar Goll mewn Gofal* yn cael ei wireddu yn y Rhaglen Plant yn Gyntaf. Mae awdurdodau lleol wedi'u gwahodd i gynnig am yr adnoddau y mae'r Cynulliad wedi'u darparu ar gyfer rhoi argymhellion y Tribiwnlys ar waith. Caiff yr adnoddau eu dyrannu i awdurdodau lleol trwy fformwla ar ôl derbyn ceisiadau wedi'u costio.

Codi am Ofal Di-Breswyl

51. Gyda'm cefnogaeth, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu cynnig gwelliannau i'r Mesur Safonau Gofal a fydd yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr, a'r Cynulliad yng Nghymru, gyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar sut i godi tâl am ofal di-breswyl. Dyma gyfle i fynd i'r afael â hen broblem ac ymrwymiad a wnaed ym Mhapur Gwyn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Trafodwyd y problemau yn Adroddiad y Comisiwn Brenhinol ar Ofal Tymor Hir i'r Henoed ac yn fwy diweddar yn Adroddiad y Comisiwn Archwilio "Charging with Care". Byddaf yn cyflwyno cynigion ar gyfer y canllaw statudol i'r Pwyllgor yn y man, ar ôl Cydsyniad y Frenhines i'r Mesur.

Y Comisiwn Brenhinol a Phapur Gwyn y Gwasanaethau Cymdeithasol

52. Rwyf wedi cyhoeddi papur ymgynghori ar 3 mater sydd â rhyw fath o berthynas â Phapur Gwyn y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Comisiwn Brenhinol ar Ofal Tymor Hir.

- Codi Tâl am lety Preswyl: Mae'r papur yn gofyn am safbwyntiau ynghylch sut i newid y drefn codi tâl er mwyn iddi weddu'n well â'r amcanion o hybu annibyniaeth a dewis, helpu cynhalwyr a phartneriaid a lleihau'r pwysau i werthu cartref yn gynt pan fydd rhywun yn mynd i gartref preswyl.
- Cymorth Incwm ag iddo Hawliau Cadw: Mae hyn yn ymwneud â'r bobl a gadwodd cyfran uwch o'u cymorth incwm i dalu am eu gofal pan ddaeth y newidiadau i Ofal yn y Gymuned i rym ym 1993. Mesur dros-dro ydoedd i fod ac mae gofid wedi'i fynegi yn ei gyloch ar lefel ymarferol. Mae nifer o ddewisiadau ar gyfer y dyfodol gan gynnwys dileu hawliau cadw a throsglwyddo arian i awdurdodau lleol.
- Lwfans Preswyl: Telir y lwfans i breswylwyr cartrefi annibynnol neu wirfoddol. Nid yw ar gael i breswylwyr cartrefi'r cyngor. Nid yw unigolion yn elwa ar y lwfans gan ei fod yn cael ei adennill trwy'r prawf modd, ond fe all lurgunio penderfyniadau ynghylch y trefniant cynnal mwyaf addas. Fel ag a ragwelwyd ym Mhapur Gwyn y Gwasanaethau Cymdeithasol, y bwriad yw diddymu'r lwfans a throsglwyddo'r arian i awdurdodau lleol.

Y Diweddaraf am drosglwyddo gwasanaethau o Ganolfan Ymadfer Talygarn

53. Bydd aelodau'n cofio imi gymeradwyo cynnig Awdurdod Iechyd Bro Taf i drosglwyddo gwasanaethau o Ganolfan Ymadfer Talygarn i Ysbyty Brenhinol Morgannwg ar 14 Rhagfyr 1999. Gallaf eich hysbysu yn awr o'r datblygiadau diweddaraf.

54. Dechreuodd y gwasanaeth ymadfer aml-ddisgyblaethol newydd yn Ysbyty Morgannwg ar 8 Mai. Mae Grp Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf yn parhau i weithio gydag Ymddiriedolaeth NHS Pontypridd a Rhondda, a'r Awdurdod Iechyd, i fonitro'r gwasanaeth newydd i sicrhau bod y safonau uchel a gafwyd yn Nhalygarn yn parhau o dan y drefn newydd.

55. Cyfarfu aelodau Fforwm Talygarn, Awdurdod Iechyd Bro Taf, Kim Howells AS a Jane Davidson AC ar 26 Mai i drafod beth i'w wneud â safle Talygarn. Fe'u hysbyswyd bod trefniadau diogelwch 24 awr wedi'u gwneud a chedwir golwg ar y t rhag iddo ddadfeilio. Y bwriad yw cynnig y t i amrywiaeth o ddefnyddwyr posib ac y bydd y gwaith o'i farchnata yn cychwyn cyn hir.

56. Bydd Awdurdod Iechyd Bro Taf yn sicrhau bod buddiannau lleol, gan gynnwys Fforwm Talygarn, yn cael gwybod beth sy'n digwydd i'r safle.

Materion i'r Sector Gwirfoddol

57. Daeth yr ymgynghori ar Gynllun drafft y Sector Gwirfoddol i ben ar 24 Mai. Mae'r ymatebion iddo wrthi'n cael eu hystyried. Caiff Cynllun drafft diwygiedig ei roi ger bron cyfarfod Cyngor Partneriaeth Cysgodol y Sector Gwirfoddol ar 22 Mehefin cyn ei drafod yn y sesiwn lawn ddechrau mis Gorffennaf.

58. Cyfarfu Cyngor Partneriaeth Cysgodol y Sector Gwirfoddol am y trydydd tro ar 12 Mai. Ymhlith y pynciau a drafodwyd oedd: arian Ewropeaidd a'r hyn sydd wedi'i wneud i gael y sector gwirfoddol i gyfranogi yng ngwaith byrddau rheoli lleol; y cynnydd amrywiol o ran datblygu Compactau lleol, arferion gwaith Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol yn y dyfodol a materion yn ymwneud â phenodiadau cyhoeddus.

59. Cafwyd adroddiad cyfamserol hefyd gan y grp sy'n cynnal Adolygiad Strategol o Ariannu'r Sector Gwirfoddol a sefydlwyd gan Gyngor Partneriaeth Cysgodol y Sector Gwirfoddol. Y cam nesaf yw asesu sut orau y gall y Sector Gwirfoddol gyfrannu at y Cylch Cynllunio Cyllideb nesaf.

Menter Cyllid Preifat Baglan

60. Dechreuodd cymal adeiladu'r ysbyty newydd ym Maglan yn ffurfiol ar 8 Mehefin pan droais innau a'r Gwir Anrh. Syr John Morris AS y glotsen gyntaf ar y safle.

ATODIAD

MATERION O DDIDDORDEB

CYNNWYS

Rhif y Paragraff

GWELLA IECHYD A THRECHU ANGHYDRADDOLDEBAU

Asiantaeth Safonau Bwyd (Cymru)

1

ANSAWDD/AROLYGU/RHEOLEIDDIO

Arolygiad o'r Modd y Rheolir Elfennau Gofal Gwasanaethau'r Henoed yn Sir y Fflint – Ebrill 1999

2-5

Arolygiad o Unedau Cofrestru ac Arolygu Awdurdodau Lleol – Ebrill-Gorffennaf 1999 **6-8**

Cwynion yr NHS **9-10**

MATERION POLISI A GWEITHREDOL BRYD

Comisiwn Meddyginiaethau **11-12**

GWELLA IECHYD A THRECHU ANGHYDRADDOLDEBAU

Asiantaeth Safonau Bwyd (Cymru)

1. Rwy'n ystyried argymhellion ar gyfer penodiadau i Bwyllgor Ymgynghorol yr Asiantaeth Safonau Bwyd (Cymru) ar y cyd â Kirsty Williams a David Melding.

ANSAWDD/AROLYGU /RHEOLEIDDIO

Arolygiad o'r Modd y Rheolir Elfennau Gofal Gwasanaethau'r Henoed yn Sir y Fflint – Ebrill 1999

2. Mae'r arolygiad hwn yn rhan o gyfres sy'n edrych ar wasanaethau i'r henoed, gyda phwyslais arbennig ar gael defnyddwyr a chynhalwyr i fod yn rhan o'r asesiad a'r arolygiad.

3. Er roedd llawer o ddefnyddwyr gwasanaethau a'u cynhalwyr yn falch o'r help roeddynt yn ei gael, gwelwyd bod yr asesiadau ysgrifenedig o'r gofal roedd eu hangen arnynt o safon isel, ac nad oedd y ffordd yr oedd gwasanaethau'n cael eu harolygu yn foddhaol; hefyd, roedd y bwlch rhwng rheolaeth ac arfer yn rhy fawr.

4. Ceir 10 argymhelliad yn yr adroddiad i ddatblygu gwasanaethau, ynghyd â chynllun gweithredu'r Cyngor ei hun ar gyfer eu cyflawni.

5. Bydd Arolygiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cadw golwg ar hyn ac yn sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu cyflawni.

Arolygiad o Unedau Cofrestru ac Arolygu Awdurdodau Lleol – Ebrill – Gorffennaf 1999

6. Mae'r arolygiad hwn yn dangos sut mae unedau cofrestru ac arolygu yn gwneud eu gwaith. Maen nhw'n archwilio cartrefi preifat a chartrefi awdurdodau lleol a gwasanaethau gofal dydd i blant dan wyth, gyda rhybudd a heb rhybudd, weithiau gyda'r hwyr ac ar y penwythnosau.

7. Mae'r un deg un uned yng Nghymru yn mynd ati i wneud eu gwaith yn fras yn yr un ffordd, er bod ganddynt lawer o harferion gwaith a gweithdrefnau gwahanol. Y gwendid mwyaf yw diffyg trefniadau cyfathrebu clir a chyson rhwng arolygwyr a staff gwasanaethau cymdeithasol sydd mewn cyswllt dyddiol â defnyddwyr gwasanaethau, sy'n golygu bod rhai gofidiau'n mynd trwy'r rhwyd.

8. O dan y mesur newydd sy'n mynd trwy'r Senedd, daw'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol am reoleiddio ac arolygu yng Nghymru. Bydd yr adroddiad hwn o gymorth i gynllunio'r trefniadau newydd.

Cwynion yr NHS

9. Mae rhifyn 1998/99 o'r adroddiad ystadegol ar 'Gwynion i'r NHS yng Nghymru' wedi'i gwblhau a'i ddsbarthu ymhlith swyddogion yr NHS (ceir copïau hefyd yn Llyfrgell y Cynulliad). Mae'r adroddiad yn seiliedig ar y wybodaeth flynyddol a ddarperir gan ymddiriedolaethau'r NHS ac awdurdodau iechyd sy'n crynhoi'r cwynion ysgrifenedig a dderbynnir yn ystod y flwyddyn. Cafwyd rhyw 5,700 o gwynion yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 1999, cynnydd o 5% ers y flwyddyn flaenorol. Roedd mwyfrif y cwynion (73%) yn ymwneud â gwasanaethau ysbytai a chymunedol, a chafodd tua tri chwarter ohonynt eu datrys cyn pen 4 wythnos. Gofynnwyd am lai na 200 o adolygiadau annibynnol. Bydd ffigurau 1999/2000 ar gael yn yr hydref.

10. Mae trefn gwyno'r NHS yn awr yn destun adolygiad ar lefel y DU yn gyfan a disgwylir argymhellion erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd y Cynulliad yn ystyried yr argymhellion ac yn penderfynu ar y ffordd ymlaen yng Nghymru.

MATERION POLISI A GWEITHREDOL BRYD

Y Comisiwn Meddyginiaethau

11. Mae'r Athro Roger Walker, Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus Fferyllyddol Awdurdod Iechyd Gwent wedi'i benodi i wasanaethu ar y Comisiwn Meddyginiaethau.

Sefydlwyd y Comisiwn Meddyginiaethau o dan adran 2 Deddf Meddyginiaethau 1968 a'i rôl yw cynghori ar faterion polisi cyffredinol ar reoli meddyginiaethau. Disgrifir union ddyletswyddau'r Comisiwn yn y Ddeddf. Mae'n gorff corfforedig ac mae ei aelodau yn para yn eu swydd fel arfer am bedair blynedd.

12. Mae Asesiad Risg wedi'i ddechrau o'r modd y cynhyrchir cynhyrchion meddyginiaethol perthnasol didrwydded er mwyn cael darlun cyflawn o wasanaeth cynhyrchu'r cynhyrchion hyn fel ag y mae ar hyn o bryd ac i gael rhyw amcan o'r pwysau y mae'r gwasanaeth yn eu hwynebu. Nod fy swyddogion yw cael adroddiad yn barod i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol erbyn diwedd haf 2000.